



PROSIECT PERERINDOD PENRHYS

Adnodd addysg Lefel A:
Cymhellion i fynd ar
bererindod i Ffynnon
Gwenfrewi



Beth oedd yn cymell pobl i fynd ar bererindod yng Nghymru?

Dyma nifer o ddyfyniadau sydd yn egluro rhai o'r cymhellion i fynd ar bererindod yng Nghymru'r Canol Oesoedd a dechrau'r oes fodern. Maen nhw i gyd yn cyfeirio at Ffynnon Santes Gwenfrewi yn Nhreffynnon yng Ngogledd Cymru.

Cafodd Gwenfrewi ei gwneud yn Santes ar ôl iddi wrthod dyn o'r enw Caradog oedd wedyn wedi codi ei gleddyf a thorri ei phen ymaith. Llwyddodd ei hewythr, Sant Beuno, osod ei phen yn ôl a bu byw wedyn fel lleian. Ar yr union fan lle y cwmpodd ei phen, yn wyrthiol fe darddodd ffynnon. Daeth yn gyrchfan pwysig i bererinion yr oesoedd canol, yn boblogaidd gyda'r Cymry a brenhinoedd Lloegr. Er gwaetha'r ymdrechion i gau'r ffynnon yn y 16G, fe barhaodd i fod yn boblogaidd ac mae'n dal i fod ymhlith y mannau cysegredig pwysicaf i bererinion hyd heddiw.

Darllenwch y ffynonellau yma, ac yna trafodwch y cwestiynau ar y diwedd.

Ffynhonnell A: Dyfyniad o "Bywyd Santes Gwenfrewi: Gwyrthiau a ddigwyddodd gerllaw Ffynnon Santes Gwenfrewi" a ysgrifennwyd yn y 12G.

Roedd 'na ddyn cyfoethog oedd yn sal. Roedd ganddo reolaeth dros ei arian ond nid dros ei hun. Pan glywodd e' am enwogrwydd y forwyn (Santes Gwenfrewi), penderfynodd fynd mewn cert at y ffynnon mor fuan a phosib. Pan gyrhaeddodd y gofeb i'r forwyn fendigaidd, rhannodd ei eiddo ymhlith yr eglwys a'r tlodion, gan adael ei hun yn ddyn tlawd. 'Doedd e' ddim bellach yn cael pleser ym mhethau'r byd, ond `roedd e'n ymddiried yn yr Arglwydd. Ar ol iddo ymolch deirgwaith yn nwr y ffont, a gorffen tair noson o wylnos a gweddi yn yr eglwys, gallech glywed yn y fan a'r lle esgyrn yn torri yn ei freichiau, ei draed a'i goesau. Roedd yr esgyrn hynny oedd, ers ei eni, wedi plygu a chrebachu'n hyll yn erbyn ei ffolen, nawr yn ymestyn allan fel bod y cymalau yn y lle iawn. Gallwch ddychmygu gweld tyrfa hapus o'r rhai oedd yno'n gwylio yn diolch i Dduw a'r Forwyn.

Roedd 'na ddyn, yn cael ei arwain i wneud penyd am ei bechodau, wedi ei rwymo â chyffion haearn am flynyddoedd lawer. Roedd ei freichiau wedi eu rhwygo'n druenus gan yr haearn rhydlyd erbyn iddo ddod i'r cysegrfan. Treuliodd y noson yn cynnal gwynos a gweddi, ac ar doriad gwawr aeth at y ffynnon. Wrth iddo olchi ei ddwylo ac ymestyn ei freichiau i'r ffynnon, roedd hi'n ymddangos iddo fel petai dwy law dyner wedi rhyddhau'r cadwyni o'i freichiau..... Roedd y dyn wedi dod o'r eglwys i'r ffynnon wedi ei rwymo, ond dychwelodd o'r ffynnon i'r eglwys a'i rwybau wedi torri'n rhydd. Fel arwydd, penderfynodd hongian y cadwyni hynny i fyny, ac am flynyddoedd lawer, maen nhw wedi bod yn hongian yn y fan honno fel bod pobl yn eu gweld fel offrwm.

Fe daflwyd dau fachgen, brodyr, oedd yn diodde o epilepsi, i'r ffynnon ac fe gawson nhw iachad llwyr.

Daeth menyw â'i mab at gofeb y ferthyres fendigaidd. Roedd e wedi bod yn fud ers ei eni. Ar ol iddi orffen dathlu defodau'r wylnos, aeth ati i olchi ei mab yn y ffynnon a gwlychu ei geg â'r dwr. Clywodd ei mab yn siarad ac yn dweud geiriau cywir a gofyn am ei ddillad. Pan welson nhw hyn, roedd y bobl oedd yn bresennol wedi eu syfrdanu.

Ffynhonnell B



Crutches left at Holywell - from the Daily Graphic, 2 October 1894

Ffyn Baglau wedi eu gadael yn Nhreffynnon - o'r Daily Graphic, Hydref 2, 1894.

Ffynhonnell C: Dyfyniad o Gwenfrewi, gan Tudur Aled, oedd wedi ei ysgrifennu yn gynnar yn y 16G, ychydig cyn i'r Diwygiad Protestanaidd wahardd pererindod i safleoedd fel Ffynnon Santes Gwenfrewi.

Aed i'w nofio 'r dyn afiach,
Ef âi'r naill ai'n farw ai'n iach;
A farno haint i farw'n hon,
F'a i'r nef o'r un afon;
O'i rhad a'i gwyrth, rhoed i gant
Einioes echnos yn Sychnant;
Iechyd o'i glefyd i glaf,
Ag i hen-gleirch gwahan-glaf;
Ennaint o fwg Nant y Fagl
I rai truain yw'r triagl;
Rhag heiniau fil, rhag hun ferr,
Rhag gwayw llewyg, rhag llawer,
Gwared a gâi Gred i gyd,
Gan gwynfan, gwag ag ynfyd.

Gwylwch gant, goleuwch gŵyr
Gwelais yno gael synnwyr;
Y dall a wyl, aed i'w llan,
A dyn crupl, o ddi'n cropian;
Doen yno â dyn annoeth,
Oddiyno daw yn ddyn doeth;
Aed i offrwm y diffwrth,
E ddeffry hon iddo i ffrwrth.

Aed y dyn afiach i nofio ynddi,
Gadawai naill ai'n farw neu yn iach;
Yr un a gaiff ei gondemnio i farw yn hon,
A â i'r nef o'r un afon;
O'i gras a'i gwyrth, rhoddwyd bywyd i gant
Echnos yn Sychnant;
Iechyd o'i glefyd i glaf
Ac i hen wr gwahanglwyfus;
Eli o dard Nant y Fagl
Yw'r moddion i drueiniaid;
Rhag mil o heintiau, rhag cwsg byr
Caiff Cristnogion i gyd achubiaeth,
Gan wylofain dros y gwan a'r ynfyd.

Gwylwch gant o bobl, cynheuwch
ganhwylau,
Gwelais synnwyr yn cael ei adfer;
Y dall fydd yn gweld, gadewch iddo fynd i'w
heglwys,
A dyn anabl, os daw trwy gropian;
Deuent â dyn annoeth,
Oddiyno daw yn ddyn doeth;
Gadewch i ddyn di-blant gynnig offrwm,
Bydd hon yn ei ddeffro a bydd iddo blant.

Ffynhonnell D: Llythyr Sir John Bridgeman, Prif Ustus Caer, at Gyngor y Gororau, Chwefror 3 1636

Yn ôl llythyron eich Arglwyddiaeth ar Ragfyr 9 diwethaf, sydd yn gofyn i mi i ddefnyddio popeth yn fy ngallu i rwystro'r bererindod i Dreffynnon . . . ac yn hynny o beth, adrodd ar sut 'dw i wedi gweithredu . . . 'dw i wedi ysgrifennu at yr Ynadon Heddwch yn gofyn iddyn nhw:

1. I gau holl dafarndai dianghenraid
2. I fynnu bod pob tafarnwr a fiteliwr ac eraill sy'n rhoi llety i ddiethriaid, i ymrwymo i roi gwybod i'r Ynadon Heddwch pwy sy'n defnyddio eu llety a ble maen nhw'n byw.
3. I gadw golwg manwl ar y ffynnon.

A dyna, yn fy marn i yw'r cyfan a ellir ei wneud ar hyn o bryd.

Ffynhonnell E: 'Faith-Cure Claim: Manchester Woman at St Winifred's Well', *Y Manchester Guardian Tachwedd 12 (1925)*

Ger ffynnon Santes Gwenfrewi y bore ma, cefais gyfweliad gyda Mrs Anne Vesey o 112 Westmoreland Street, Harpurhey, Manceinion, sy'n honni iddi gael ei iachâu drwy ffydd.

"Roeddwn yn gloff ers dros chwe blynedd", meddai Mrs Vesey, "a doeddwn i ddim yn gallu cerdded heb ffyn baglau. Cefais driniaeth am bum mlynedd yn ysbyty Manchester Royal, ond dychwelais adre ym 1923 ar ol iddyn nhw ddweud nad oedd gwellhad i mi . . . Ym mis Awst eleni, fe ddois i Dreffynnon ac fe gefais fy nhrochi bedair gwaith yn ffynnon y Santes Gwenfrewi. Roeddwn yn teimlo'n well ar ol y trochiad cyntaf ac wrth droi am adre, sylweddolais y gallwn gerdded heb y ffyn baglau. Cerddais yr holl ffordd o'r orsaf a chario'r bagiau fy hun er syndod a boddhad i fy nheulu."

Cwestiynau:

1. Beth yn ol y ffynonellau oedd yn cymell pobl i fynd ar bererindod i Ffynnon Santes Gwenfrewi?
2. Pam roedd pobl yn chwilio am wyrthiau trwy bererindod?
3. Pam bod Ffynonellau A a B yn cyfeirio at adael cadwyni a ffyn baglau ger y ffynnon? Beth oedd arwyddocad hyn?

Pam 'rych chi'n meddwl bod y bobl oedd yng ngofal y ffynnon yn hapus i'r pethau hyn gael eu harddangos?

4. Hyd yn oed ar ol y Diwygiad Proestanaidd, fe barhaodd pererindod i Ffynnon Santes Dwynwen yn boblogaidd. Sut mae ffynonellau D ac E yn dangos y gwahanol deip o bererinion oedd yn mynd yno?
5. Pam bod rhai o'r ffynonellau yn cyfeirio at wylwyr neu aelodau teulu'r sawl a gafodd eu hiachau gan wyrthiau?
6. Sut y'ch chi'n meddwl y gall pererindod fod wedi newid ers yr oesoedd canol? Meddylwch am y rheswm bod pobl yn mynd ar bererindod, ble maen nhw'n mynd a sut maen nhw'n cyrraedd y safle.

Produced by Dr Kathryn Hurlock

Manchester Metropolitan University in collaboration with the Penrhys Pilgrimage Project